

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL IFORI

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu at ddiben sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Ifori (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Mai 2018. Mae'r Bil i'w weld yma: <https://services.parliament.uk/Bills/2017-19/ivory/documents.html>

Amcan y Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcan o ran polisi yw helpu i warchod poblogaethau eliffantod, yn benodol, drwy leihau herwela drwy gyfyngu'n sylweddol ar y farchnad gyfreithiol am ifori yn y DU.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
5. Bwriad prif ddarpariaethau'r Bil yw lleihau'r galw am ifori yn y DU a thramor drwy roi gwaharddiad ar fasnachu ifori yn y DU. Ystyr "ifori" yn y Bil yw ifori o ysgithr neu ddant eliffant, gan gynnwys unrhyw eitem sydd wedi ei gwneud o ifori neu sydd ag ifori ynddi (cymalau 1(4) a 35).
6. Mae cymal 1 o'r Bil yn gwahardd "masnachu" mewn ifori ("y gwaharddiad ar ifori"), sef:
 - prynu, gwerthu neu hurio ifori;
 - cynnig neu drefnu i brynu, gwerthu neu hurio ifori;
 - cadw ifori er mwyn ei werthu neu ei hurio;
 - allforio ifori o'r Deyrnas Unedig er mwyn ei werthu neu ei hurio; neu
 - fewnforio ifori i'r Deyrnas Unedig er mwyn ei werthu neu ei hurio.
7. Mae cymalau dilynol yn darparu ar gyfer nifer o esemptiadau i'r gwaharddiad hwn, ar gyfer creu cofrestr o eitemau ifori sy'n bodoli eisoes ac sy'n elwa ar yr esemptiadau hynny, ac ar gyfer y darpariaethau gorfodi angenrheidiol.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

8. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynir, yn gymwys i Gymru (ac felly mae'n ymwneud â Chymru) (yn ogystal ag i Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

9. I'r graddau y mae'r darpariaethau yn y Bil yn gwahardd ac yn rheoleiddio masnachu ifori yng Nghymru, mae darpariaethau'r Bil lfori o fewn Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad i wneud deddfwriaeth er mwyn hyrwyddo lles anifeiliaid. I'r graddau hynny, felly, gofynnir i'r Cynulliad roi ei gydsyniad i'r Bil lfori arfaethedig.
10. Cyflwynwyd gwelliannau hwyr i'r Bil gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 17 Hydref. Roedd y gwelliannau hynny'n cyflwyno pwerau penodol ar gyfer yr "awdurdod cenedlaethol priodol", a ddiffinnir yng nghymal 37(1A) fel Gweinidogion Cymru mewn perthynas â rheoliadau sy'n gymwys o ran Cymru. Nodir, er hynny, fod Cymal 37(1B) yn darparu, hyd yn oed o dan amgylchiadau o'r fath, fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael parhau i wneud y rheoliadau mewn perthynas â Chymru os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad.
11. Mae'r disgrifiad a ganlyn o ddarpariaethau'r Bil yn cymryd y gwelliannau hynny i ystyriaeth. Er mwyn esbonio lle y mae pwerau Gweinidogion Cymru, gwelwyd bod angen manylu ar y darpariaethau perthnasol er mwyn esbonio'r cyd-destun.
12. Mae Cymal 2 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi tystysgrifau esemptio ar gyfer eitemau sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1918 ac sydd o werth a phwysigrwydd artistig etc eithriadol. Mae Cymal 2(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu a yw gwerth artistig etc eitemau o'r fath yn ddigon eithriadol o fawr. Mae'r ffactorau hynny'n cynnwys unrhyw faterion y caniateir eu pennu mewn canllawiau a gyhoeddir gan yr "awdurdod cenedlaethol priodol" (gweler paragraff 10 uchod am esboniad o'r term hwnnw).
13. Mae Cymal 2(5) yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau yn rhagnodi sefydliadau sydd, ym marn yr awdurdod cenedlaethol perthnasol, â digon o wybodaeth ac arbenigedd i roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar geisiadau am dystysgrifau esemptio. Byddai modd ddirymu unrhyw reoliadau o'r fath drwy benderfyniad gan y Cynulliad (yn rhinwedd cymal 37).
14. Mae Cymal 3 yn nodi sut y mae'n rhaid gwneud cais am dystysgrif esemptio. Mae Cymal 3(1) yn rhagnodi'r hyn y mae'n rhaid i ymgeisydd ei ddarparu ac mae paragraff (g) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu'r cyfryw wybodaeth bellach a bennir mewn canllawiau a gyhoeddir gan yr awdurdod cenedlaethol priodol (gweler paragraff 10 uchod am ddiffiniad o'r term hwnnw). Â Cymal 3 yn ei flaen i ddarparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyfeirio cais am dystysgrif esemptio at sefydliad rhagnodedig o dan amgylchiadau penodol.
15. Mae Cymal 4 yn gwneud darpariaeth bellach am dystysgrifau esemptio, gan gynnwys yr hyn sydd i'w gynnwys yn y tystysgrifau hynny, ac am bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddirymu neu ddiwygio tystysgrifau neu i ddarparu tystysgrif gyfnewid. Mae Cymal 4(7) yn ymdrin â thrafodiad sy'n gysylltiedig ag eitem sy'n elwa ar dystysgrif esemptio ac mae'n darparu

nad yw'r dystysgrif esemptio ond yn gymwys os, ymhlith pethau eraill, bydd y personau o dan sylw yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol unrhyw wybodaeth a fydd wedi ei phennu mewn canllawiau a gyhoeddir gan yr awdurdod cenedlaethol priodol (gweler paragraff 10 uchod am ddiffiniad o'r term hwnnw).

16. Mae Cymal 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno apêl neu gais newydd os gwrthodir rhoi tystysgrif esemptio neu os caiff ei dirymu. Mae Cymal 5(3) yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol (gweler paragraff 10 uchod am ddiffiniad o'r term hwnnw) i wneud rheoliadau a fydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer apelau o'r fath. Byddai modd dirymu unrhyw reoliadau o'r fath drwy benderfyniad gan y Cynulliad (yn rhinwedd cymal 37). Mae Cymal 5(4) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth (drwy gyfrwng rheoliadau) a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i apelydd dalu ffi.
17. Mae Cymal 6 yn darparu bod portreadau ifori penodedig ar ffurf miniaturau sy'n dyddio o gyfnod cyn 1918, ac sydd wedi eu cofrestru o dan Gymal 10, yn cael eu hesemptio o'r gwaharddiad. Mae Cymal 7 yn darparu bod eitemau penodedig sy'n dyddio o gyfnod cyn 1947, nad ydynt yn cynnwys llawer o ifori, ac sydd wedi eu cofrestru o dan Gymal 10, yn cael eu hesemptio o'r gwaharddiad. Mae Cymal 8 yn darparu bod offerynnau cerdd penodedig sy'n dyddio o gyfnod cyn 1975 yn cael eu hesemptio o'r gwaharddiad.
18. Mae Cymal 9 yn pennu bod gwerthu ifori i amgueddfa gymwys, neu ei brynu neu eu hurio gan amgueddfa gymwys, yn cael eu hesemptio o'r gwaharddiad. Mae Cymal 9(3) yn diffinio amgueddfa gymwys, mewn perthynas â Chymru, fel amgueddfa y dangosir ei bod wedi ei hachredu ar restr a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, neu ar eu rhan. Mae Cymal 9(4) yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol (gweler paragraff 10 uchod am ddiffiniad o'r term) i wneud rheoliadau sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i gymal 9(3) sy'n ganlyniad i newid enw neu i drosglwyddo swyddogaethau corff a bennir yn y paragraff hwnnw. Byddai modd dirymu unrhyw reoliadau o'r fath drwy benderfyniad gan y Cynulliad (yn rhinwedd cymal 37).
19. Mae Cymal 10 yn creu cofrestr o eitemau ifori sy'n bodoli eisoes ac sy'n elwa ar yr esemptiadau yng nghymalau 6, 7 neu 8, ac mae'r cymal hwnnw a chymal 11 yn nodi sut y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol weinyddu'r gofrestr honno. Mae Cymal 10(1)(f) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gofrestru eitem ar y gofrestr os yw perchennog yr eitem yn darparu, ymhlith pethau eraill, unrhyw wybodaeth a bennir mewn canllawiau a gyhoeddir gan yr awdurdod cenedlaethol priodol (gweler paragraff 10 uchod am ddiffiniad o'r term hwnnw).
20. Mae Cymal 12 yn nodi'r sancsiynau troseddol a sifil am dorri'r gwaharddiad neu am achosi neu hwyluso toriad o'r fath. Mae cymal 13 (sancsiynau sifil) yn rhoi effaith i Atodlen 1 o'r Bil (a ddisgrifir isod).

21. Mae Cymalau 14 i 27 o'r Bil yn nodi'r pwerau gorfodi. Mae Cymalau 28 i 32 o'r Bil yn ymdrin â chadw a gwaredu eitemau yr ymafaelwyd ynddynt, neu â'u rhoi yn ôl.
22. Mae Cymal 35 yn rhoi'r diffiniad o "ifori". Mae Cymal 35(2) yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol (gweler paragraff 10 uchod am ddiffiniad o'r term) i wneud rheoliadau i ddiwygio'r diffiniad o "ifori" er mwyn cynnwys ifori o anifail neu rywogaeth nad yw paragraff (1) yn cyfeirio ato neu ati ar hyn o bryd. Â'r cymal hwnnw yn ei flaen i ddarparu na chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 35(2) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.
23. Mae Atodlen 1 i'r Bil yn ymdrin â chosbau ariannol. Mae Rhan 5 o Atodlen 1 i'r Bil yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol (gweler paragraff 10 uchod am ddiffiniad o'r term) i wneud "rheoliadau atodol" yn gwneud darpariaethau ar gyfer ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir yn Atodlen 1, neu i wneud darpariaethau sy'n cynnwys darpariaeth ganlyniadol neu gysylltiedig. Mae hefyd yn rhoi rhwymedigaeth ar yr awdurdod cenedlaethol priodol i ymgynghori mewn cysylltiad â gwneud y rheoliadau hynny. Byddai modd dirymu unrhyw reoliadau o'r fath drwy benderfyniad gan y Cynulliad (yn rhinwedd cymal 37).
24. Mae Rhan 6 (paragraffau 19 i 24) o Atodlen 1 i'r Bil yn gwneud amryfal ddarpariaethau cyffredinol ac atodol ac mae paragraff 21 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi a chyhoeddi canllawiau ar y sancsiynau y caniateir eu gosod ar ôl trosedd o dan adran 12, ac ar y camau y caniateir i'r Ysgrifennydd Gwladol eu cymryd o ganlyniad i hynny. Mae paragraff 21(7) o Ran 1 o Atodlen 1 i'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban ac unrhyw berson arall y teimla'r ysgrifennydd ei fod yn briodol cyn cyhoeddi canllawiau neu ganllawiau diwygiedig o dan baragraff 21.
25. Mae Atodlen 2 i'r Bil yn gwneud amryfal ddarpariaethau yn ymwneud â gwarantau chwilio yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Ifori

26. Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi nod Llywodraeth y DU i helpu i warchod poblogaethau eliffantod, drwy gyfyngu'n sylweddol ar y farchnad gyfreithiol ar gyfer ifori yn y DU.
27. O ystyried nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng polisi'r ddwy weinyddiaeth yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau angenrheidiol yn y Bil hwn ar gyfer y DU. At ei gilydd, bernir na fyddai ceisio deddfu ar wahân yng Nghymru yn ddymunol ar hyn o bryd (ar gyfer y darpariaethau hynny yn y Bil hwn sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru), oherwydd:

- y bydd y darpariaethau yn y Bil hwn ar gyfer y DU yn helpu i sicrhau'r canlyniadau y byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno eu cyflawni yn y maes hwn. Bydd yn cyfrannu at y weledigaeth o ffyniant i bawb a amlinellir gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy hyrwyddo lles anifeiliaid,
- y bydd cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ar wahân i Gymru yn golygu y bydd yn cymryd mwy o amser i gyrraedd y nod a ddymunir,
- y gallai cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn union yr un fath i Gymru a fyddai'n ymdrin â masnachu ifori yng Nghymru (h.y. heb gynnwys mewnforio ac allforio o Gymru), ond a fyddai'n ddeddfwriaeth ar wahân, arwain at ddryswch i'r cyhoedd o ran pa ddeddfwriaeth sy'n gymwys i senario benodol.

Goblygiadau ariannol

28. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru nac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ran y Cynulliad y tro hwn.

Casgliad

29. Am y rhesymau a roddir uchod, barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r gwaharddiad ar fasnachu ifori yng Nghymru yn y Bil ehangach ar gyfer y DU

Lesley Griffiths AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Hydref 2018